# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 23 Chwefror 2012** |
| Amser: | **09:15 - 12:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200002_23_02_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Yr Athro John Bolton, Institute of Public Care, Oxford Brookes University**<br>**Julie Jones, Social** Care Institute for Excellence<br>Ruth **Marks, Older People's Commissioner for Wales**<br>**John Moore,** Fy Mywyd mewn **Cartref Cymru**<br>**Tom Owen, Fy Mywyd mewn Cartref**<br>**Sarah Stone, Deputy Older People's Commissioner for Wales**<br>**Alun Thomas, Office of the Older People's Commissioner for Wales** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams. Nid oedd dirprwyon.

## 2. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hyn - Tystiolaeth gan Gomisiynydd Pobl Hyn Cymru

2.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar ofal preswyl i bobl hŷn.

2.2 Cytunodd y Comisiynydd i rannu ymchwil ar chwythu'r chwiban gyda'r Pwyllgor pan fydd yr ymchwil hwnnw ar gael.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am wybodaeth am y cynnydd a wnaed ynghylch hyrwyddo confensiwn gan y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl hŷn.

## 3. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hyn - Tystiolaeth gan raglen Fy Mywyd mewn Cartref

3.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar ofal preswyl i bobl hŷn.

## 4. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hyn - Tystiolaeth gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth a'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus

4.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar ofal preswyl i bobl hŷn.

4.2 Cytunodd yr Athro Bolton i ddarparu copi o'r ymchwil a wnaed gan yr Athro Andrew Kerslake (y Sefydliad Gofal Cyhoeddus) ar y cliciedau iechyd a all arwain at sefyllfa lle bydd unigolyn yn cael mynediad at ofal preswyl.

4.3 Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o adroddiad a luniwyd gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lloegr ynghylch dadansoddiad cyllidebol o'r cwmni Four Seasons Health Care.

## 5. Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

5.1 Blaenraglen waith - Gwanwyn 2012

5.2 Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## 6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig i wahardd aelodau'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7.

## 7. Goblygiadau iechyd cyhoeddus cyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol - Ystyried crynodeb o'r dystiolaeth

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ar oblygiadau iechyd cyhoeddus cyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol, a chytunodd ar grynodeb ohoni.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.